

Adnabod Bardd

# Eurig Salisbury

## Bardd Plant Cymru 2011–2013

Un o'r pethau gorau am eiriau yw ei bod hi mor anhygoel o hawdd eu mwynhau nhw. Meddylia am ddwy eiliad – beth sy ei angen arnat er mwyn medru mwynhau geiriau? A oes angen sgrin fawr, fawr, fel sy ei hangen er mwyn mwynhau ffilm? A oes angen sgrin fach, fel sy ei hangen er mwyn mwynhau rhaglen deledu? A oes angen teclyn i wrando, fel sy ei hangen er mwyn mwynhau cerddoriaeth? Beth am bapur, hyd yn oed? Na, yr unig beth sy ei angen mewn gwirionedd yw ... dychymyg. A siawns fod gan bawb un o'r rheini!

Pan fydda i wedi diflasu'n llwyr wrth aros am drên sy'n hwyr, neu'n gwrando ar rywun anniddorol iawn, iawn yn siarad, mi fydda i'n dechrau chwarae â geiriau yn fy mhen. Fydda i ddim yn amharu ar neb, oherwydd all neb fy nghlywed i'n meddwl. Fydda i ddim yn gwneud unrhyw sŵn, dim ond meddwl am eiriau'n dawel bach nes fy mod i wedi anghofio'n llwyr am yr holl ddifflastod. Does dim angen papur arna i, na phensil, na ffôn, na chyfrifiadur – dim byd ond dychymyg.

Pan oeddwn i yn yr ysgol uwchradd roedd gen i daith hir a diflas i'w gwneud ar y bws bob bore a nos. Ond gan fod bachgen arall ar yr un bws â mi hefyd yn hoffi chwarae â geiriau – dyna gael gwared ar y diflastod yn llwyr! Bob dydd mi fyddwn i'n creu llinell gyda geiriau yn fy mhen. Wedyn byddai fy ffrind yn mynd ati i ateb y llinell honno. Ac wedyn byddai fy ffrind yn gosod llinell i mi ei hateb, ac yn y blaen. Yn fuan iawn fe ddôi'n amser i fy ffrind adael y bws, a minnau'n flin na fyddai'r daith yn hirach!

Felly, cofia y gelli di chwarae â geiriau ble bynnag yr wyt ti – os oes gen ti dychymyg, hynny yw!



Llyfrau barddoniaeth gan Eurig Salisbury:

*Sgrwtsh!* £4.99 Gomer  
*Llyfr Glas Eurig* £6.00 Barddas

Llyfrau i blant wedi eu haddasu gan Eurig Salisbury:

*Rhyfel Mawr y Pants* £5.99 Gomer  
*Antur Fawr Panta Clôs* £5.99 Gomer



# Adnabod Bardd Eurig Salisbury

## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Cefais i fy ngeni yng Nghaerdydd ac ro'n i'n byw yn yr Eglwys Newydd tan o'n i'n chwech oed, pan symudodd y teulu i Langynog, ger Caerfyrddin.

**Ble cawsoch chi eich addysg?** Ysgol Gynradd Melin Gruffudd, Ysgol Gynradd y Dderwen, Ysgol Gyfun Bro Myrddin a Phrifysgol Cymru Aberystwyth.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Ro'n i'n hoffi bod yng nghwmni fy ffrindiau, ond do'n i ddim wastad yn fachgen da! Dwi'n cofio cael mwy nag un stŵr.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Indiana Jones.

**Pa rai oedd eich hoff lyfrau yn blentyn?** Rhyw lyfr am ddeinosoriaid, mae'n siŵr, ond ro'n i'n hoff iawn o'r *Chronicles of Narnia* hefyd.

**Beth yw eich hoff ddiddordebau?** Darllen am bob dim (fwy neu lai), chwarae pêl-droed, bwytia omledi a chanu caneuon wrth yrru'r car (pan fydda i ar fy mhen fy hun).

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Cwmni da a brecwast mawr.

## Beth sy'n eich gwylltio chi?

Hysbysebion ar y teledu!

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?** Wrth ddarllen cerddi mewn gwersi Cymraeg a minnau'n dair ar ddeg neu'n bedair ar ddeg oed – roedd fy ngherddi cyntaf yn reit wael (os medri di eu galw nhw'n gerddi) ond ro'n i'n benderfynol y byddwn i'n llwyddo yn y pen draw.

**Pa un oedd eich llyfr cyntaf?** Cyfrol o farddoniaeth o'r enw *Llyfr Glas Eurig*, am fod glas yn lliw sy'n cael ei gysylltu â bod yn ifanc.

**Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu/farddoni?** Pe bawn i'n ei chael hi'n hawdd, fyddai dim llawer o bwynt imi wneud! Mae wastad angen ymdrechu i greu cerdd dda, ond nid yw 'ymdrechu' cweit yr un peth â chael rhywbeth yn anodd i'w wneud.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** O lyfrau, cylchgronau a phapurau newydd.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Cymreictod, herio'r drefn ac, yn bennaf efallai, fy ngwallt.

**Ydych chi wedi ennill unrhyw wobrau neu anrhydeddau?** Enillais gadair Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun yn 2006, a dwi wedi dod yn ail deirgwaith yn olynol yng nghystadleuaeth y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol – y tro nesaf dwi am drïo dod yn ail yn y gobaith y ca' i'r wobr gyntaf!

**Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu/barddoni?** Bydd mor wreiddiol a gwahanol i bawb arall â phosib.

**Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?**

Hoffwn i pe na bawn i'n gorfod eillio cweit mor aml – mae fy mlew i'n tyfu'n llawer rhy gyflym!

**Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?** Rhaglenni doniol fel *The Simpsons*.

**Beth yw eich hoff fwyd?** Omled.

**Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?** Popeth, yn y pen draw (ond pobol yn baglu a chwympo ar *You've Been Framed* yn arbennig).

**Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?** Yr amser gorau i roi jel yn eich gwallt yw yn syth bin ar ôl ei olchi yn y gawod a'i sychu.



CYNGOR LLYFRAU CYMRU  
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com  
llyfrau ar-lein books online

S4/C

www.s4c.co.uk/barddplantcymru

BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD



Llenyddiaeth  
Cymru  
Literature  
Wales

urdd.org  
Urdd Gobaith Cymru



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

Lluniau: Keith Morris

2011